Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith

Gorffennaf 2011

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd · Green Dragon Environmental Standard

Iechyd ar Waith · Cyrraedd y Nod · The Corporate Standard · Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| Sut rydym yn adnabod ardaloedd difreintiedig? | 2 |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Sut mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn perfformio yng Nghymru?** | **7** |
| Tlodi a diweithdra yng Nghymru | 7 |
| Sut rydym yn rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr? | 8 |
| Faint o ddysgwyr sydd mewn colegau a darparwyr hyfforddiant? | 9 |
| Faint o ddysgwyr sy'n cael cymorth ariannol? | 10 |
| Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni? | 11 |
| Tystiolaeth arolygu am 'ba mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i ddysgwyr' | 12 |
| Beth ddywedodd y dysgwyr wrthym? | 12 |
| Beth ddywedodd y darparwyr wrthym ni? | 14 |
| **Atodiad** | |
| **Geirfa** | |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Diben yr arolwg hwn yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am berfformiad dysgwyr o ardaloedd difreintiedig sy'n mynychu colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn unol â'r cais yn llythyr blynyddol y gweinidog sy'n amlinellu cylch gwaith Estyn.

2 Drwy gynnal yr arolwg hwn, dilynodd yr arolygwyr fethodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd mewn arolygon blaenorol am berfformiad ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Adolygodd yr arolygwyr gylchoedd gwaith blaenorol Estyn yn ogystal â llenyddiaeth gyfredol. Dadansoddodd yr arolygwyr ddata gan APADGOS[1] ac adroddiadau diweddar gan Estyn am:

- gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant;
- tueddiadau mewn cofrestriadau;
- cyfraddau presenoldeb;
- ansawdd addysgu;
- agwedd ac ymddygiad dysgwyr; ac
- ansawdd cymorth ac arweiniad.

3 Ymwelodd yr arolygwyr â saith coleg sy'n darparu addysg bellach a rhaglenni dysgu yn y gwaith yn ogystal â phedwar sefydliad annibynnol sy'n darparu dysgu yn y gwaith. Cyfwelwyd â rheolwyr yn y darparwyr hyn yn ogystal â grwpiau o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Adeiladu Medrau a dysgwyr sy'n astudio rhaglenni addysg bellach sy'n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA). Cyn yr ymweliadau hyn, rhoddodd Estyn holiadur i bob coleg a darparwr dysgu yn y gwaith i gael eu barn am berfformiad dysgwyr o ardaloedd difreintiedig.

4 Adolygodd yr arolygwyr fwletinau ystadegol Llywodraeth Cymru a gwybodaeth sydd ar gael i ddysgwyr ar wefannau perthnasol y Cynulliad a darparwyr addysg.

5 At ddibenion yr adroddiad cylch gwaith hwn, nodir ardaloedd difreintiedig drwy ddefnyddio dull mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Datblygwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn 2008 ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ei Chyfarwyddiaeth Ystadegol ac Uned Ddata Llywodraeth Leol (Cymru).

[1] Dyma Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Fe'i hailenwyd yn Adran Addysg a Sgiliau yn ddiweddar.

## Cefndir

6 Mae ardaloedd sylweddol o ddifreintedd yng Nghymru. Mae dysgwyr yn yr ardaloedd hyn yn wynebu sawl rhwystr pan maent yn gadael yr ysgol ac yn symud ymlaen i addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith. Nid yw'r problemau hyn yn ymwneud â diffyg arian yn unig oherwydd cyfeirir at brinder adnoddau a chyfleoedd hefyd. Mae adroddiadau cylch gwaith blaenorol Estyn yn dangos yn glir bod cysylltiad cryf rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel mewn ysgolion. Mae disgyblion o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o gyrraedd lefelau is o gymharu â disgyblion eraill.

### Sut rydym yn adnabod ardaloedd difreintiedig?

7 Mae MALlC yn datgan bod amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae'n datgan bod tlodi yn golygu prinder arian neu hanfodion eraill i ymdopi. Mae amddifadedd, ar y llaw arall, yn cyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau a chyfleoedd, ac nid arian yn unig. Ni ellir mesur amddifadedd lluosog yn uniongyrchol, fel sy'n cael ei wneud ym MALlC: nid yw'n fath arbennig o amddifadedd. Mae'n gymysgedd o fathau penodol o amddifadedd y gellir eu mesur ar wahân i ryw raddau. Fodd bynnag, ni ellir eu cyfuno i greu mynegai cyffredinol oherwydd gallai fod cysylltiad rhyngddynt a chael mwy o effaith os cânt eu canfod mewn rhai cyfuniadau penodol.

8 Mae MALlC, a grëwyd yn 2008 yn cynnwys wyth math o amddifadedd:

- incwm;
- tai;
- cyflogaeth;
- y gwasanaethau sydd ar gael;
- iechyd;
- yr amgylchedd;
- addysg; a
- diogelwch cymunedol.

9 Mae Cymru a Lloegr wedi'u rhannu'n Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE). Mae tua'r un boblogaeth ym mhob ACE. Mae tair lefel o ACE: Is, Canolig ac Uwch. Mae 1,896 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yng Nghymru ac mae tua 1,500 o bobl yn byw ym mhob un. Mae sgorau amddifadedd wedi'u cyfrifo ar gyfer yr ardaloedd hyn lle po uchaf yw'r sgôr, mwyaf yw'r amddifadedd. Caiff ardal sgôr amddifadedd uwch nag ardal arall os oes cyfran uwch o bobl a ystyrir yn bobl ddifreintiedig yn byw yn yr ardal honno. Nid yw ardal ei hun yn cael ei disgrifio fel ardal ddifreintiedig; amgylchiadau a ffyrdd o fyw'r bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei sgôr amddifadedd. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio nad yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig, ac nad yw pawb sy'n ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.

10 Mae medrau'r gweithlu yn amrywio ledled Cymru. Nid oes cymwysterau gan fwy na un allan o bump o bobl ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful na thros ugain y cant o

bobl yng Nghaerffili. O gymharu â hynny, dim ond 8% o bobl yng Ngheredigion, Bro Morgannwg a Sir Fynwy sydd heb unrhyw gymwysterau. (Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009 – Cymwysterau uchaf sydd gan oedolion o oed gwaith yng Nhymru.)

11 Dyma ganran y bobl o oed gwaith oedd heb gymwysterau ledled Cymru yn 2009:

- nid oedd cymwysterau gan dros 18% o bobl o oed gwaith ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili;
- nid oedd cymwysterau gan rhwng 16% ac 17.9% o bobl o oed gwaith yn Abertawe, Torfaen a Chastell-nedd Port Talbot;
- nid oedd cymwysterau gan rhwng 13% a 15.9% o bobl o oed gwaith yng Ngwynedd, Casnewydd, Sir Gaerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr;
- nid oedd cymwysterau gan rhwng 11% a 12.9% o bobl o oed gwaith yn Sir Benfro, Powys, Conwy, Ddinbych, Ynys Môn, Caerdydd, a Wrecsam; a
- nid oedd cymwysterau gan lai na 11% o bobl o oed gwaith yng Ngheredigion, Sir Fynwy, Sir Y Fflint a Bro Morgannwg.

(Cyfarwyddiaeth Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)

12 O ran addysg, medrau a hyfforddiant, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dangosyddion canlynol wrth gyfrifo MALlC:

- sgôr pwyntiau yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfartaledd;
- sgôr pwyntiau yng nghyfnod allweddol 3 ar gyfartaledd;
- sgôr pwyntiau yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfartaledd;
- cyfraddau absenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt mewn addysg uwch; a
- chyfran yr oedolion rhwng 25 a 59/65 oed heb gymwysterau.

13 Mae MALlC yn dangos bod 190 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEI) mewn 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yng Nghaerdydd (22%), Rhondda Cynon Taf (13%), Abertawe (11%) a Chasnewydd (9%) y mae canrannau uchaf yr ACEI yn 10% yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran amddifadedd addysgol. Dyma'r pum ACEI mwyaf difreintiedig yng Nghymru:

- Gorllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych;
- Queensway 1, Wrecsam;
- Gorllewin y Rhyl 1, Sir Ddinbych;
- Butetown 2 , Caerdydd; a
- De-orllewin y Rhyl 2, Sir Ddinbych.

14 Mae amrywiaeth eang yn aml rhwng y sgôr amddifadedd uchaf ac isaf ar y mynegai o fewn ardaloedd awdurdod lleol. Yn Sir Ddinbych, er enghraifft, 81.7 yw'r sgôr uchaf a 4.04 yw'r sgôr isaf. Yn Sir Fynwy, mae'r amrywiaeth yn llawer llai gan mai 32.8 yw'r uchaf a 2.6 yw'r isaf.

15 Defnyddir y wybodaeth ym MALlC i gynllunio a dyrannu arian ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf a Dechrau'n Deg. Defnyddir

y parth am addysg ym MALlC i gynyddu dyraniadau arian ar sail amddifadedd yn y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (SGAG). Disgwylir i'r arian ychwanegol hwn dalu am gostau ychwanegol o ran ehangu darpariaeth a chyflwyno darpariaeth i'r rhai sydd o gefndiroedd difreintiedig o ran addysg. Mae'r model ariannu yn cynyddu'r arian a roddir ar gyfer darpariaeth i ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd a ddosberthir yn nhair dengradd uchaf y parth addysg yn MALlC.

## Prif ganfyddiadau

16 Mae bron pob darparwr dysgu yn y gwaith a choleg addysg bellach yn darparu rhaglenni i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig er mwyn iddynt barhau â'u haddysg neu hyfforddiant. Mae adroddiadau arolygu Estyn yn dangos yn glir bod gofal, arweiniad a chymorth da iawn ar gael i ddysgwyr ar ôl iddynt ddechrau astudio'r rhaglenni hyn. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn dadansoddi eu data am ddysgwyr yn ddigon da i wybod a ydynt yn denu cyfran ddigonol o ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig. Nid yw darparwyr yn dadansoddi data am gyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad y dysgwyr yn ddigon da i ddangos bod y gofal, yr arweiniad a'r cymorth y maent yn eu rhoi yn cael effaith ar berfformiad. Dim ond nifer bychan o ddarparwyr sy'n cymharu cyflawniad dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, neu gyflawniad dysgwyr sy'n derbyn cymorth ariannol, â pherfformiad dysgwyr eraill.

17 Mae nifer y dysgwyr amser llawn sy'n astudio rhaglenni mewn colegau addysg bellach wedi cynyddu'n gyson rhwng 2004 a 2010. Dros yr un cyfnod, mae nifer y dysgwyr sy'n astudio rhaglenni dysgu yn y gwaith wedi gostwng. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n astudio rhaglenni addysg bellach wedi gwella ryw ychydig ar bob lefel dros yr un cyfnod. O ran rhaglenni dysgu yn y gwaith, mae cyfraddau llwyddiant wedi gwella'n sylweddol ar bob lefel, yn enwedig mewn rhaglenni Adeiladu Medrau.

18 Drwy siarad gyda dysgwyr, mae'n amlwg bod y cymorth ariannol a roddir iddynt yn ffactor allweddol sy'n eu helpu i gyflawni eu hastudiaethau. Nid yw lefel y cymorth ariannol yn ddigon i newid amgylchiadau personol yn sylweddol, ond mae'n rhoi rhywfaint o annibyniaeth i ddysgwyr ac yn eu helpu i leihau caledi. Er nad yw dysgwyr yn ystyried manteision ariannol wrth ystyried pa gwrs addysg neu hyfforddiant i'w ddilyn, roedd mwyafrif y dysgwyr y siaradwyd â nhw yn teimlo na fyddent yn gallu parhau i astudio eu rhaglenni heb y cymorth ariannol a roddir iddynt.

19 Mae darparwyr yn buddsoddi cryn dipyn o adnoddau i roi gofal, arweiniad a chymorth i'w dysgwyr. Mae ganddynt systemau sgrinio effeithiol sy'n nodi dysgwyr y mae arnynt angen cymorth i wella. Mae darparwyr yn mynnu eu bod yn rhoi'r un lefelau o ofal, arweiniad a chymorth i bob dysgwr sydd eu hangen, p'un a ydynt yn dod o ardaloedd difreintiedig ai peidio. Fodd bynnag, nid yw'r darparwyr yn gwneud digon i amlygu pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig cyn iddynt gyflwyno cais i astudio eu rhaglenni. Nid yw darparwyr yn gwneud digon i gynorthwyo dysgwyr drwy roi cymorth ac arweiniad iddynt i'w galluogi i gyflwyno ceisiadau am y rhaglenni sydd ar gael.

20 Mae'n amlwg bod nifer y dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn addysg bellach a hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol wedi cynyddu a bod cyflwyno cymorth ariannol wedi galluogi rhagor o ddysgwyr i barhau gyda'u haddysg a'u hyfforddiant. Mae hefyd yn amlwg fod colli cymorth ariannol am bresenoldeb gwael neu gynnydd anfoddhaol yn ysgogi dysgwyr i fynychu'n rheolaidd a chwblhau eu gwaith ar amser.

## Argymhellion

Dylai darparwyr:

A1 roi cymorth ac arweiniad i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig cyn iddynt gyflwyno cais am raglenni. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o’r genfogaeth a’r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt a’u bod yn cofrestru ar y rhaglenni cywir;

A2 olrhain perfformiad a chynnydd dysgwyr o ardaloedd difreintiedig a’u cymharu â pherfformiad a chynnydd dysgwyr o ardaloedd eraill;

A3 arfarnu effeithiolrwydd y cymorth i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig i amlygu ei effaith ar gyrhaeddiad;

A4 cydweithio’n agosach ag ysgolion a darparwyr eraill i nodi dysgwyr o ardaloedd difreintiedig a’r cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o’r gefnogaeth a’r cymorth ariannol sydd gael iddynt wrth iddynt ystyried eu dewisiadau gyrfaol;

A5 galluogi dysgwyr i gael gafael ar wybodaeth am eu presenoldeb a’u perfformiad yn haws ar-lein; a

A6 gwneud yn siŵr bod perfformiad dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn cael ei gofnodi’n flynyddol yn adroddiadau hunanasesu’r darparwyr.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A7 barhau i roi cymorth ariannol i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig er mwyn eu galluogi i gwblhau eu haddysg neu eu hyfforddiant;

A8 ystyried ffyrdd o leihau faint mae’n ei gostio i weinyddu cynllun LCA; a

A9 pharatoi meincnodau a thargedau cenedlaethol i wella cyrhaeddiad dysgwyr o ardaloedd difreintiedig.

# Sut mae dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yn perfformio yng Nghymru

## Tlodi a diweithdra yng Nghymru

21 Yn ôl adroddiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhagfyr 2010), mae'r twf blynyddol yng Ngwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y pen ym mhoblogaeth y DU wedi arafu. Mae GVA yn mesur gweithgaredd economaidd ar sail prisiau sylfaenol, sy'n golygu trethi ar gynhyrchu ond nid trethi ar gynnyrch. Mae amcangyfrifon rhanbarthol GVA wedi'u seilio ar brisiau cyfredol, felly nid ydynt yn ystyried newidiadau mewn prisiau dros amser (chwyddiant). Mae ffigurau rhanbarthol GVA ar gael ar gyfer 12 rhanbarth o'r DU. Yn 2008, yng Nghanol Llundain oedd y GVA uchaf y pen, gyda £60,686. Gorllewin Cymru a'r Cymoedd oedd yr isaf, gyda £12,860. £20,541 oedd GVA y pen yn y DU ar gyfartaledd yn 2008.

22 Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yn 2009, roedd 16% o oedolion ifanc (16-24 oed) yng Nghymru yn ddi-waith yn 2008 ac roedd tua hanner yr holl bobl ddi-waith yng Nghymru o dan 25 oed. Ar ei hisaf, roedd 12% o oedolion ifanc yng Nghymru yn ddi-waith yn 2004 o gymharu â 4.5% ar gyfer pawb o oed gwaith. Yn 2008, roedd 16% o oedolion ifanc yng Nghymru yn ddi-waith o gymharu â 6% ar gyfer pawb o oed gwaith. Dros y flwyddyn honno, roedd tua un o bob deg oedolyn ifanc yng Nghymru yn ddi-waith. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai lefel uchel y diweithdra ymysg oedolion ifanc yw'r elfen fwyaf arwyddocaol yn y dirwasgiad presennol. Os yw'r sefyllfa'n parhau, mae'n honni y gallai cenhedlaeth newydd gael ei chreu sydd heb y profiad, y cymwysterau na'r hunanhyder i ofalu am eu hunain a'u teuluoedd. Ac eto, dyma'n union y genhedlaeth y bydd llawer o rieni plant 2010 yn dod ohoni. (Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru: Sefydliad Joseph Rowntree 2009.)

23 Mae Strategaeth Plant Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 yn rhoi gweledigaeth o "Gymru lle nad oes unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi". Mae'n pwysleisio y gall plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi:

- gael mwy o broblemau iechyd;
- peidio â gwneud cystal yn yr ysgol;
- meddu ar lai o fedrau;
- meddu ar ddisgwyliadau is;
- peidio â chael swydd, neu gael swydd sy'n talu llai, ac wedyn mynd yn ddibynnol ar fudd-daliadau; a
- chael llai o gyfleoedd a bod o dan anfantais drwy gydol eu bywydau.

24 Mae gan Strategaeth Plant Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 13 nod cyffredinol er mwyn cyflawni'r weledigaeth lle nad oes unrhyw neu unigolyn ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi erbyn 2010. Mae dau o'r nodau hyn yn ymwneud â:

- helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth drwy ganolbwyntio ar hyfforddi a sicrhau bod swyddi newydd ar gael i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed; a

- helpu pobl ifanc i wneud defnydd llawn o addysg a hyfforddiant drwy hybu addysg, hyfforddiant a medrau i bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac annog twf ysgolion bro, oherwydd gallent helpu gadw plant, pobl ifanc a rhieni yn gysylltiedig â dysgu.

25 Mae'r cynnydd diweddaraf yn erbyn Strategaeth Plant Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2010 yn dangos bod canran y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau cymeradwy wedi gostwng o 2.2% yn 2005 i 0.9% yn 2009. Fodd bynnag, arhosodd y ffigur sylfaenol ar gyfer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) ar tua 12% rhwng 2002-2003 hyd at 2008. Ym Mhowys oedd y ganran isaf (3.0%) ac yng Nghaerdydd (10.6%), Casnewydd (10.4%) a Thorfaen (10.1%) oedd y canrannau uchaf. (Ystadegau Cymru, Ionawr 2010.)

26 Yn yr un modd, gostyngodd canran y plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel cymharol ryw ychydig o 35% yn 1998-1999 i 2000-2001 i 32% yn 2005-2006 i 2007-2008. Cynyddodd canran y plant sy'n byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio ryw ychydig o 16.9% yn 2006 i 18% yn 2008. (Ystadegau Cymru, Ebrill 2010.)

**Sut rydym yn rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr mewn colegau a darparwyr hyfforddiant?**

27 Mae sawl system ariannu ar gael i gefnogi dysgwyr sy'n astudio rhaglenni addysg bellach a dysgu yn y gwaith. I ddysgwyr sy'n astudio rhaglenni addysg bellach, ceir:

- y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA);
- Grant Dysgu'r Cynulliad (CDC); a'r
- Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG).

28 Mae dysgwyr sy'n astudio rhaglenni dysgu yn y gwaith Adeiladu Medrau yn derbyn y lwfans hyfforddiant wythnosol.

29 Cyflwynwyd LCA i ysgogi dysgwyr 16 oed mewn addysg bellach yn 2004-2005. Cafodd ei ymestyn i gynnwys dysgwyr 17 oed yn 2005-2006 a dysgwyr 18 oed yn 2006-2007. Rhaid i'r dysgwyr fod yn astudio am o leiaf 12 awr o dan arweiniad mewn sefydliad addysgol cydnabyddedig yng Nghymru. Prif elfen LCA yw'r lwfans wythnosol o £10, £20 neu £30 a delir bob pythefnos i ddysgwyr os ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Gall dysgwyr hawlio taliadau bonws ychwanegol o £100 os ydynt yn bodloni amcanion dysgu y cytunwyd arnynt. Mae'r swm wythnosol y gellir ei hawlio yn seiliedig ar incwm y cartref yn y flwyddyn dreth cyn cais y dysgwr. Dyma'r arweiniad ar gyfer blwyddyn academaidd 2010-2011:

- £30 yr wythnos os yw incwm y cartref rhwng £0 a £21,885;
- £20 yr wythnos os yw incwm y cartref rhwng £21,886 a £26,840;
- £10 yr wythnos os yw incwm y cartref rhwng £26,841 a £32,400; a
- £0 os yw incwm y cartref dros £32,400.

30 Cyflwynwyd Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC) yn 2002-2003 i annog pobl 19+ oed sy'n byw yng Nghymru i barhau â'u haddysg mewn sefydliad yng Nghymru neu mewn man arall yn y DU. Gall dysgwyr dderbyn hyd at £1,500 os ydynt mewn addysg

amser llawn neu hyd at £750 os ydynt mewn addysg ran-amser. Rhaid i ddysgwyr astudio cwrs sy'n cael arian gan APADGOS ac sy'n cynnwys o leiaf 275 awr o addysg a addysgir ym mhob blwyddyn academaidd.

31 Cyfrifir y grant blynyddol ar sail yr incwm sydd dros ben ac os ceir cyfanswm o rhwng 275 a 499 o oriau cyswllt bob blwyddyn, fel y dangosir isod ar gyfer blwyddyn academaidd 2010-2011:

- £750 ar gyfer rhwng £0 a £5,895 o incwm dros ben;
- £450 ar gyfer rhwng £5,896 a £11,790 o incwm dros ben;
- £300 ar gyfer rhwng £11,791 a £17,700 o incwm dros ben; and
- £0 ar gyfer £17,701 neu ragor o incwm dros ben.

32 Os oes 500 neu ragor o oriau cyswllt, mae'r grant yn cynyddu fel a ganlyn:

- £1,500 ar gyfer rhwng £0-£5,895 o incwm dros ben;
- £750 ar gyfer rhwng £5,896 a £11,790 o incwm dros ben;
- £450 ar gyfer rhwng £11,791 a £17,700 o incwm dros ben; and
- £0 ar gyfer £17,701 neu ragor o incwm dros ben.

33 Gall dysgwyr sy'n astudio rhaglenni Adeiladu Medrau hawlio lwfans hyfforddiant wythnosol o £50, a bydd hyfforddiant yn para o leiaf 13 wythnos. Nid yw'r lwfans hyfforddiant yn gysylltiedig ag incwm y rhieni neu'r cartref. Bydd dysgwyr hefyd yn cael cymorth i dalu rhai o'u treuliau teithio i'r ganolfan hyfforddiant a'r lleoliadau gwaith.

**Faint o ddysgwyr sydd mewn colegau a darparwyr hyfforddiant?**

34 Cynyddodd nifer y dysgwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach o 41,405 yn 2004-2005 i 44,185 yn 2009-2010, sef cynnydd o tua 7%. Dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer y dysgwyr rhan-amser o 186,930 to 125,725.

35 Dyma faint o ddysgwyr oedd yn astudio rhaglenni ar bob lefel:

- 4,885 ar lefel cyn-mynediad;
- 68,930 ar lefel mynediad;
- 204,035 ar lefel 1;
- 266,345 ar lefel 2;
- 153,215 ar lefel 3;
- 12,895 ar lefel 4, 5 neu AU; ac
- nid oedd 51,810 yn hysbys neu nid oedd eu hangen.

36 O ran dysgu yn y gwaith, gan gynnwys dysgwyr sy'n astudio rhaglenni dysgu yn y gwaith a Llwybrau i Brentisiaethau mewn colegau addysg bellach, gostyngodd nifer y dysgwyr o 58,620 ar ei uchaf yn 2004-2005 i 57,605 yn 2009-2010.

Yn 2009-2010, roedd nifer y dysgwyr cychwynnodd raglenni dysgu yn y gwaith yn cynnwys y rhai a ddechreuodd ar y rhaglenni canlynol:

- 6,880 ar Brentisiaethau Modern;
- 9,540 ar Brentisiaethau Modern Sylfaen;
- 1,050 ar Ddiploma Medrau Modern;
- 9,530 ar Adeiladu Medrau Ieuenctid;
- 4,770 ar Adeiladu Medrau Oedolion;
- 80 ar ddysgu cyn-brentisiaeth; a
- 1,430 ar raglenni eraill dysgu yn y gwaith.

(Ystadegau Cymru, Tachwedd 2010)

**Faint o ddysgwyr sy'n cael cymorth ariannol?**

**Y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol (LCA)**

37 Yn 2006-2007, hawliodd 30,370 o ddysgwyr yr LCA ym mhob canolfan, gan gynnwys colegau addysg bellach ac ysgolion. Cynyddodd hyn i 36,190 erbyn 2009-2010. Bu cynnydd o 9% yng nghyfanswm y ceisiadau ers y flwyddyn flaenorol (2008-2009). Roedd mwyafrif yr hawlwyr ym mlwyddyn gyntaf eu rhaglenni (54% yn 2009-2010), sef cynnydd o 10% ers y flwyddyn flaenorol, ac roedd y niferoedd lleiaf yn eu trydedd flwyddyn (9.9% yn 2009-2010). Ymhlith y dysgwyr hyn yn 2009-2010, roedd 47% ohonynt yn ddynion a 53% yn ferched. Cafodd 36,190 o geisiadau eu cymeradwyo ar gyfer LCA, a derbyniodd 34,390 o ymgeiswyr (95%) o leiaf un taliad.

38 Roedd 21,290 o ddysgwyr yn derbyn LCA mewn colegau addysg bellach yn 2009-2010, sef tua 59% o gyfanswm y rhai oedd yn ei dderbyn. Roedd cyfran fwyaf y rhai oedd yn derbyn LCA ym mhob canolfan ddysgu yn 16 oed (bron 46%) gyda nifer llai yn 17 (39%) a 18+ oed (15%).

39 Derbyniodd y rhan fwyaf o'r derbynwyr mewn colegau addysg bellach y £30 llawn (85%) gyda llai yn derbyn y dyraniadau is o £20 (8%) a £10 (6%).

40 Telir taliadau bonws o £100 i ddysgwyr sy'n cael hawlio LCA ac sy'n gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn eu cytundebau dysgu ym mis Ionawr a mis Gorffennaf ym mhob blwyddyn academaidd. Rhoddir taliad ychwanegol ym mis Medi i'r rhai sydd wedi dychwelyd i ddysgu ar gyfer ail flwyddyn neu flwyddyn ddilynol. Mae'r canolfannau dysgu yn awdurdodi'r taliadau hyn a'u diben yw gwobrwyo dilyniant dysgu a rhoi cymhelliannau ychwanegol i ddysgwyr i barhau â'u haddysg hyd eithaf eu gallu. Talwyd taliadau bonws i 14,500 o ddysgwyr a barhaodd eu hastudiaethau o 2008-2009, sef cynnydd o 14% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2009-2010, derbyniodd dysgwyr mewn colegau addysg bellach y taliadau bonws canlynol:

- Medi 2009 – 9,210 o ddysgwyr (4,310 o ddynion a 4,910 o ferched);
- Ionawr 2010 – 16,600 o ddysgwyr (7,880 o ddynion a 8,720 o ferched); a
- Gorffennaf 2010 – 14,590 o ddysgwyr (6,860 o ddynion a 7,720 o ferched).

41 Yn ôl y dysgwyr a gyfwelwyd, nid yw taliadau bonws mor bwysig â'r lwfans wythnosol o ran sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn dysgu. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod y taliadau bonws yn gymhelliant ychwanegol i weithio'n galed a pharhau â'u haddysg neu hyfforddiant.

**Grant Dysgu'r Cynulliad (GDC)**

42 Yn 2009-2010, talwyd gwerth £7m o Grantiau Dysgu'r Cynulliad i ddysgwyr mewn addysg o gymharu â £5.8m yn y flwyddyn flaenorol. Cyflwynodd 8,170 o ddysgwyr gais am GDC yn 2009-2010. Roedd hyn 22% yn uwch na'r nifer yn 2008-2009, a 33% yn uwch na'r nifer yn 2006-2007. Roedd wyth deg y cant o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus. Dysgwyr amser llawn oedd wyth deg pump y cant o'r ymgeiswyr llwyddiannus. Cafwyd 560 o geisiadau llwyddiannus gan ddysgwyr rhan-amser.

43 Roedd wyth deg dau y cant o geisiadau amser llawn llwyddiannus yn ddysgwyr oedd â £5,895 neu lai o incwm dros ben, a rhoddwyd y grant llawn o £1,500 iddynt.

44 Roedd mwyafrif y dysgwyr llwyddiannus yn 2009-2010 rhwng 22 a 49 oed (3,140) ac yn astudio rhaglenni amser llawn. Roedd 1,220 o'r dysgwyr amser llawn yn 19 oed, roedd 640 yn 20 oed ac roedd 460 yn 21 oed. Derbyniwyd y niferoedd uchaf o geisiadau llwyddiannus am GDC gan ddysgwyr amser llawn yng Nghaerdydd (670) a Rhondda Cynon Taf (620), ac yn Sir Fynwy (80) ac Ynys Môn (90) y cafwyd y niferoedd isaf.

**Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG)**

45 Cafwyd 20,845 o geisiadau am gymorth ariannol o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gan ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn 2009-2010. Roedd hyn 2% yn is na'r nifer yn 2008-2009. Roedd 19,390 o'r ceisiadau hyn yn llwyddiannus. Gyda'i gilydd, ariannwyd 25,405 o ddyfarniadau unigol a oedd yn werth cyfanswm o £7.0m. Roedd hyn 8% yn fwy na'r nifer y flwyddyn flaenorol. Aeth pum deg a saith y cant o'r dyfarniadau i ddysgwyr rhwng 16 a 18 oed.

**Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?**

46 Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn o golegau addysg bellach yn y cylch arolygu diwethaf (2004-2010) yn dangos bod dysgwyr yn cyflawni safonau da neu dda iawn ym mron pob coleg a arolygwyd. Mewn 19 o'r colegau a arolygwyd gennym, dyfarnwyd gradd 1 neu 2 i'r safonau a gyflawnwyd gan y dysgwyr. O ran dysgu yn y gwaith, dyfarnwyd bod y safonau a gyflawnwyd gan ddysgwyr yn y cylch diwethaf yn dda neu'n dda iawn mewn bron 60% o'r darparwyr a arolygwyd gennym.

47 O ran dysgu yn y gwaith, arolygwyd 29 o sefydliadau gennym a gyflwynodd raglenni Adeiladu Medrau yn ystod y cylch chwe blynedd. Dyfarnwyd bod y safonau a gyflawnwyd gan y dysgwyr mewn 19 o'r sefydliadau hyn naill ai'n dda neu'n dda iawn, a dyfarnwyd bod safonau'n foddhaol mewn wyth o'r sefydliadau hyn.

48 Mae dadansoddiad o'r data am gwblhau a chyrhaeddiad ar gyrsiau hir addysg bellach yn dangos bod y canran a gwblhaodd gyrsiau hir wedi codi o 85% i 88% rhwng 2007-2008 a 2009-2010. Dros yr un cyfnod, bu cynnydd tebyg mewn cyrhaeddiad o 75% i 89%. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn llwyddiant o 64% i 78% dros yr un cyfnod. Mae'r data ar gyfer rhaglenni Lefel 1 yn dangos bod cyfraddau

cwblhau wedi gwella o 85% i 89%, cododd cyfraddau cyrhaeddiad o 79% i 90% a chododd cyfraddau llwyddiant o 67% i 71%. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer rhaglenni Lefel 2 yn dangos bod y cyfraddau cwblhau wedi gwella o 84% i 87%, cododd y cyfraddau cyrhaeddiad o 74% i 89% a chododd y cyfraddau llwyddiant o 63% i 78%. O ran rhaglenni Lefel 3, bu cynnydd mewn cyfraddau cwblhau o 84% i 87%, cododd cyfraddau cyrhaeddiad o 76% i 88% a chododd cyfraddau llwyddiant o 64% i 76%.

O ran dysgu yn y gwaith, cynyddodd cyfraddau llwyddiant ar gyfer pob rhaglen o 70% yn 2007-2008 i 82% yn 2009-2010. Dros yr un cyfnod, cododd cyfraddau llwyddiant ar gyfer rhaglenni Adeiladu Medrau o 63% i 78%.

**Tystiolaeth arolygu am 'ba mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i ddysgwyr'**

49 Mae tystiolaeth o arolygiadau Estyn o golegau addysg bellach yn dangos bod ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth drwy gydol y cylch arolygu diwethaf (2004-2010) naill ai'n dda neu'n dda iawn yn y rhan fwyaf o ddarparwyr a arolygwyd gennym. Rhoddwyd gradd 1 neu 2 i ugain o'r 23 coleg a arolygwyd gennym am safonau gofal, arweiniad a chymorth. Yn yr un modd, mewn dysgu yn y gwaith, roedd safonau gofal, arweiniad a chymorth naill ai'n dda neu'n dda iawn (gradd 1 neu 2) mewn bron dau draean o'r sefydliadau a arolygwyd gennym.

50 Yn adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2008-2009, adroddodd Estyn bod gan bob coleg drefniadau da ar gyfer hysbysu dysgwyr am amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael. Roedd pob un yn cymryd gofal i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn dewis cyrsiau oedd yn cyd-fynd yn dda â'u hanghenion a'u galluoedd. Roedd gan y rhan fwyaf o golegau ddulliau amserol ac effeithiol o ddadansoddi a bodloni anghenion dysgwyr oedd angen cymorth ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Roedd dysgwyr yn derbyn cymorth rheolaidd a ffurfiol gan diwtor yn y rhan fwyaf o golegau a arolygwyd gennym.

51 O ran dysgu yn y gwaith, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr a arolygwyd yn cefnogi dysgwyr yn dda i gyflawni eu cymwysterau. Roeddent yn gwneud yn siŵr eu bod yn nodi ac yn bodloni anghenion cymorth dysgwyr. Mae llawer o ddarparwyr yn parhau i feithrin cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol sy'n cynnig cymorth ychwanegol i ddysgwyr, er enghraifft mewn cysylltiad â rhoi cyngor am yrfaoedd, digartrefedd a phroblemau'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol.

**Beth ddywedodd y dysgwyr wrthym?**

52 Mewn colegau addysg bellach, roedd y dysgwyr y buom yn siarad gyda nhw yn llawn canmoliaeth am eu cyrsiau a lefel y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn gan eu hathrawon, tiwtoriaid y cwrs a'r staff cymorth. Roedd pob un yn derbyn lwfans llawn o £30 yr wythnos ac roedd bron pob un wedi derbyn un neu ddau daliad bonws.

53 Cytunodd pob dysgwr bod yr LCA wedi'u hannog i fynychu'n rheolaidd a gweithio'n galed ar eu cyrsiau. Dywedodd sawl un bod yr LCA wedi'u gwneud yn fwy annibynnol ac wedi'u hannog i ysgwyddo fwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Roeddent o'r farn bod colegau yn eu hysbysu'n dda am eu presenoldeb a'u cynnydd

ar eu cyrsiau. Roedd llawer o golegau'n cynnig y wybodaeth hon yn hwylus ar eu safleoedd Moodle. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno nad oedd yr LCA wedi bod yn ffactor allweddol wrth chwilio am goleg neu gwrs addas, Roedd pob un yn gytûn bod enw da'r sefydliad, y cwrs cywir a'r cymwysterau oedd ar gael yn bwysicach.

54 Dywedodd pob dysgwyr nad oedd yr LCA yn swm digon sylweddol i newid eu sefyllfa ariannol o bwys. Fodd bynnag, roedd yn rhoi rhywfaint o annibyniaeth iddynt ac yn eu helpu i gyfrannu at eu treuliau yn y coleg. Roedd gan sawl un swydd ran-amser hefyd. Dywedodd llawer ohonynt yr hoffent barhau â'u hastudiaethau, hyd yn oed pe na byddai'r LCA ar gael mwyach, ond roeddent yn teimlo na fyddent yn gallu fforddio gwneud hynny hebddo. Roedd gan bob dysgwr lwybrau gyrfaoedd clir gyda'r rhan fwyaf yn dymuno symud ymlaen i addysg uwch neu waith gyda hyfforddiant pellach. Cytunodd pob dysgwr y byddent yn fodlon teithio cryn bellter i goleg cyn belled â'i fod yn cyflwyno'r cyrsiau roedd arnynt eu hangen a bod yr addysgu a'r hyfforddiant o safon uchel Roedd llawer o ddysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn teithio dros awr ar fws i fynd i'r coleg.

55 Roedd y dysgwyr yn defnyddio'r LCA yn ddoeth i dalu treuliau personol hanfodol. Roedd hyn yn cynnwys bwyd, prynu cyfarpar a dillad roedd eu hangen ar gyfer eu cyrsiau, cludiant yn ôl ac ymlaen i'r coleg, a chyfrannu at wibdeithiau neu ymweliadau addysgol.

56 Roedd y dysgwyr yn dra ymwybodol o'r angen i fynychu'n rheolaidd a gwneud cynnydd ar eu cyrsiau i allu derbyn yr LCA. Nid oedd lleiafrif bychan yn derbyn y taliadau mwyach am beidio â mynychu. Fodd bynnag, roedd pawb yn cytuno ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol i'r coleg gadw at y rheolau yn llym.

57 O ran rhaglenni Adeiladu Medrau, roedd y dysgwyr y buom yn siarad gyda nhw yn derbyn lwfansau hyfforddiant. Roeddent yn canmol rhaglen Adeiladu Medrau a'r cynnydd yr oeddent yn ei wneud yn fawr. Roedd nifer yn ei ystyried fel cyfle i ddechrau o'r newydd, ennill cymwysterau a gwella eu medrau sylfaenol a hanfodol. Roeddent i gyd yn cytuno nad y lwfans hyfforddiant oedd eu prif reswm dros ddechrau dysgu yn y gwaith. Nid oedd nifer o'r dysgwyr wedi mwynhau eu hamser yn yr ysgol ac roeddent yn gweld dysgu yn y gwaith fel cyfle i ailddechrau eu dysgu. Roeddent yn cytuno bod enw da'r darparwr, y rhaglen hyfforddiant gywir a lleoliad adeilad y darparwr yn ffactorau pwysig wrth ddewis ble i hyfforddi. Roedd y dysgwyr yn hoffi'r annibyniaeth oedd ganddynt drwy gael eu cyfrifon banc eu hunain a rheolaeth dros eu lwfans hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd yr arian dan sylw yn ddigon i newid eu bywydau yn sylweddol. Roedd rhai o'r dysgwyr yn ystyried y lwfans hyfforddiant fel cyfraniad tuag at eu dysgu ac roeddent yn hoffi'r tebygrwydd rhwng dysgu yn y gwaith a bod mewn swydd. Roeddent yn hoffi cael eu trin fel fe byddent yn y gweithle.

58 Roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr y buom yn siarad gyda nhw yn defnyddio'r lwfans hyfforddiant yn briodol. Roeddent yn ei ddefnyddio i dalu am fwyd, cyfarpar ac offer roedd eu hangen ar gyfer eu hyfforddiant yn ogystal â dillad amddiffynnol a gwisg roedd eu hangen ar gyfer y gweithle. Nid oedd treuliau cludiant yn broblem o bwys i'r dysgwyr oherwydd roedd pob un ohonynt yn cael hawlio unrhyw dreuliau dros y lwfans wythnosol o £5. Fodd bynnag, defnyddiodd y dysgwyr ran helaeth o'u lwfans hyfforddiant i dalu'r treuliau hyn ar y dechrau gan na fyddent yn cael eu had-dalu tan

yr wythnos ganlynol fel arfer. Roedd llawer o ddysgwyr wedi cael cymorth ariannol ychwanegol gan eu darparwyr os oeddent wedi cael trafferth fforddio dillad neu gyfarpar arbenigol, neu wedi cael trafferth talu treuliau cludiant neu brynu dillad addas ar gyfer cyfweliadau neu leoliadau gwaith.

59 Roedd y dysgwyr yn deall yr amodau o ran hyfforddiant, presenoldeb a chymhelliant yn dda. Roeddent yn cytuno bod angen cadw'n gaeth at y rheolau o ran presenoldeb a phrydlondeb ac roeddent yn teimlo bod y darparwr yn defnyddio'r rhain yn deg ac yn gyson.

**Beth ddywedodd y darparwyr wrthym ni?**

60 Mewn colegau a sefydliadau dysgu yn y gwaith, roedd y rheolwyr yn adnabod yr ardaloedd difreintiedig o'u cwmpas yn dda. Roeddent wedi defnyddio côd post y dysgwyr er mwyn eu dosbarthu yn ôl y 10 dengradd o amddifadedd yn MALIC. Defnyddiodd y rheolwyr y wybodaeth hon i gyfrifo pa ganran o'u dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Fodd bynnag, ni ddefnyddiodd y darparwyr y wybodaeth hon yn rheolaidd yn eu systemau ansawdd i ddadansoddi perfformiad dysgwyr o'r ardaloedd hyn na chymharu eu perfformiad â dysgwyr o ardaloedd eraill.

61 Roedd y rheolwyr yn deall bod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys cymorth ariannol, i allu astudio eu rhaglenni yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mynnodd y rheolwyr eu bod yn darparu'r un lefel o ofal, arweiniad a chymorth i bob dysgwr lle bynnag y maent yn byw. Mynegodd pob darparwr fod ganddynt weithdrefnau cadarn i sgrinio pob dysgwr newydd sy'n dechrau er mwyn pennu eu hanghenion llythrennedd, rhifedd ac ariannol, gan gynnwys anghenion cludiant a gofal plant lle bo'n briodol.

62 Nid oedd darparwyr yn monitro yn rheolaidd lefel y cymorth na nifer y dysgwyr o ardaloedd difreintiedig oedd yn manteisio ar y cymorth. Nid oeddent ychwaith yn cymharu lefel nac effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer dysgwyr o ardaloedd eraill. O ganlyniad i hynny, nid oedd darparwyr yn gallu dangos bod y gofal, yr arweiniad a'r cymorth roeddent wedi'i roi i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig wedi arwain at wella cyfraddau cwblhau neu gyrhaeddiad.

63 Dywedodd rheolwyr mewn colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith bod yr LCA a'r lwfans hyfforddiant yn sicr wedi helpu o ran presenoldeb a phrydlondeb. Adroddodd un coleg bod lefelau presenoldeb dros 95% ar gyfer dysgwyr oedd yn derbyn yr LCA yn 2009-2010 ar ôl ystyried absenoldebau awdurdodedig. Roedd darparwyr wedi datblygu systemau cadarn i fonitro a chofnodi presenoldeb dysgwyr. Roeddent yn defnyddio cofrestrau electronig mewn sawl achos ac roedd y dysgwyr yn gallu gweld cofnod o'u presenoldeb ar system Moodle y darparwr. Mewn rhai achosion, roedd y darparwyr yn defnyddio system ar bapur lle'r oedd angen i ddysgwyr 'lofnodi' eu henwau ym mhob sesiwn. Roedd monitro presenoldeb dysgwyr ac awdurdodi taliadau mewn achosion o'r fath yn cymryd llawer iawn o amser ac ymdrech. Roedd pob darparwr yn pennu disgwyliadau priodol ar bob dysgwr oedd yn derbyn cymorth ariannol. Roedd y darparwyr yn rhoi'r rhain ar waith yn gyson ac nid oeddent yn awdurdodi taliadau os oedd dysgwyr wedi methu â chadw at y gofynion. Fodd bynnag, defnyddiodd y darparwyr eu synnwyr cyffredin yn dda mewn achosion lle byddai gwrthod rhoi cymorth ariannol wedi cael effaith andwyol ar y dysgwr a

chynnydd ar y rhaglen. Roedd darparwyr yn cydweithio'n agos â'r dysgwr ac asiantaethau allanol er mwyn eu helpu i oresgyn rhwystrau dysgu yn y tymor byr a gallent barhau i awdurdodi taliadau mewn achosion o galedi gwirioneddol, fel digartrefedd, problemau iechyd neu anawsterau personol.

64 Dywedodd un o'r sefydliadau mai un o'u prif heriau gyda dysgwyr o ardaloedd difreintiedig oedd yr angen i godi eu dyheadau a'u gwneud yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael iddynt. Dywedodd rheolwyr bod diwylliant o beidio â chymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant yn dylanwadu ar lawer o ddysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig. Roeddent yn aml yn dioddef o ddiffyg hyder neu hunan-barch ac nid oedd ganddynt yr awydd i ddatblygu i lefelau uwch o hyfforddiant ar ôl cwblhau eu haddysg orfodol. Roeddent hefyd o'r farn bod angen darparu lefelau uwch o gymorth i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig ar adeg pan fo llai o arian ar gael.

## Atodiad

### Astudiaeth achos 1

Treuliodd y dysgwr 19 oed hon y rhan fwyaf o'i phlentyndod mewn gofal a gadawodd yr ysgol gyda 10 TGAU er gwaethaf amserau anodd. Daeth yn ddysgwr annibynnol yn 16 oed gan ei bod yn gyfrifol am ofalu am ei hun a'i chartref. Fodd bynnag, roedd hwn yn gyfnod heriol a oedd yn aml yn anodd. Felly, nid oedd yn teimlo ei bod yn gallu cymryd rhan lawn mewn addysg bellach tan ddwy flynedd yn ddiweddarach pan ymunodd â'i choleg lleol yn 2009 i astudio lefelau UG.

Yn sgil y protocol a oedd wedi'i ddatblygu rhwng tîm Plant mewn Gofal a Gadawyr Gofal y Cyngor Bwrdeistref Sirol lleol, roedd y coleg yn gallu targedu'r fyfyrwraig hon i sicrhau na fyddai pryderon ariannol yn eu rhwystro rhag dysgu. Darparwyd cymorth i wneud yn siŵr y cafodd cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol ei gwblhau yn ei blwyddyn gyntaf a chais am Grant Dysgu'r Cynulliad yn ei hail flwyddyn pan ddaeth yn 19 oed. Trefnodd y coleg hefyd iddi gael teithio ar fysiau a chael prydau am ddim drwy'r Gronfa Addysgol Wrth Gefn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Darparodd Swyddog Dynodedig y Coleg ar gyfer Plant mewn Gofal a Gadawyr Gofal gymorth bugeiliol a bu'n eiriolwr ar ei rhan yn y coleg, a'i chysylltu â'i gweithiwr cymdeithasol, ei darlithwyr a'i thiwtor personol. Trefnwyd hyfforddwr dysgu ar gyfer y fyfyrwraig hefyd i roi cymorth academaidd ychwanegol. A hithau'n unigolyn ifanc annibynnol, roedd dychwelyd i addysg amser llawn yn dalcen caled ar y dechrau iddi. Fodd bynnag, yn ystod ei blwyddyn gyntaf aeth ar Gynllun Prifysgol Haf Ymestyn yn Ehangach a ddatblygodd ei dyhead i astudio troseddeg yn y brifysgol. Mae'r fyfyrwraig wedi dychwelyd ar gyfer ei hail flwyddyn yn y coleg yn fwy penderfynol ac yn bresennol yn amlach, ac mae wedi cyflwyno ei chais i astudio yn y brifysgol yn 2011.

### Astudiaeth achos 2

Roedd y dysgwr 16 oed hwn wedi treulio y rhan fwyaf o'i fywyd mewn gofal. Roedd yn absennol o'r ysgol yn aml ac felly nid oedd yn cyflawni'n dda. Ar ben hynny, treuliodd rywfaint o amser mewn uned cyfeirio disgyblion. Yn sgil y protocol a oedd wedi'i ddatblygu rhwng tîm Plant mewn Gofal a Gadawyr Gofal y Cyngor Bwrdeistref Sirol lleol, roedd y coleg yn gallu targedu'r dysgwr hwn i wneud yn siŵr ei fod yn gallu teithio ar y bws a chael prydau am ddim, yn ogystal â manteisio ar Gronfa Cynorthwyo Dysgwyr i brynu unrhyw eitem arall angenrheidiol ar gyfer y coleg. Rhoddwyd cymorth hefyd gyda chyflwyno cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Cydweithiodd Swyddog Dynodedig y Coleg ar gyfer Plant mewn Gofal a Gadawyr Gofal â gweithiwr cymdeithasol y dysgwr. Cafodd y dysgwr wybod am y cymorth sydd ar gael ac mai'r Swyddog Penodedig oedd ei eiriolwr yn y coleg i drafod unrhyw broblemau a allai godi. Er iddo beidio â chymryd rhan yn yr ysgol, roedd presenoldeb y myfyriwr hwn yn y coleg yn ardderchog. Awgrymodd yr adborth hefyd fod y taliadau Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cymell y myfyriwr hwn gan mai dyma'r tro cyntaf iddo gael cyfrif banc ac arian yr oedd yn gyfrifol amdano.

**Astudiaeth achos 3**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r coleg wedi bod yn cynorthwyo tri brawd a chwaer oedd yn hawlio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu'r Cynulliad a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Roedd y dysgwyr yn byw gyda'u mam, sy'n rhiant sengl a heb lawer o Saesneg. Oherwydd sefyllfa'r teulu, roedd disgwyl i bob dysgwr gynorthwyo'n ariannol. Er bod gan y tri ohonynt swyddi rhan-amser, roedd y cymorth ariannol roeddent yn eu derbyn yn lleihau'r baich drwy adael iddynt weithio llai o oriau a chanolbwyntio ar eu hastudiaethau yn ogystal â gallu cyfrannu at y teulu ar yr un pryd. Heb y cymorth ariannol hwn, ni fydda'r dysgwyr wedi gallu mynd i'r coleg.

**Astudiaeth achos 4**

Aeth dysgwr a adawodd yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau ar brofiad gwaith gyda darparwr dysgu yn y gwaith. Datblygodd ddiddordeb mewn TG a dychwelodd i gwblhau cymhwyster NVQ Lefel mewn TG. Enillodd ragor o brofiad gwaith drwy gael ei leoli gyda chwmni TG adnabyddus. Symudodd i ddarparwr arall i ennill ei gymwysterau NVQ Lefel 2. Galluogodd cymorth ariannol a phersonol iddo ennill cymwysterau a phrofiad priodol mewn gosod meddalwedd cyfrifiadurol, trwsio caledwedd a chynnal rhwydweithiau cyfrifiaduron. Rhoddodd hyn yr hyder i'r dysgwr i gyflwyno cais am swydd amser llawn a dilyn gyrfa yn y diwydiant TG.

**Astudiaeth achos 5**

Gadawodd dysgwr o gymuned deithwyr addysg ffurfiol yn 10 oed, ond derbyniodd addysg yn ei gartref ar y safle. Yn 16 oed, penderfynodd ddychwelyd i addysg a chofrestrodd ar raglen Adeiladu Medrau gyda darparwr dysgwr yn y gwaith. Gwnaeth gynnydd ardderchog ym meysydd llythrennedd a rhifedd ac enillodd gymwysterau ar lefelau mynediad 1, 2 a 3. Erbyn hyn, mae'n astudio NVQ Lefel 1 mewn Chwaraeon a Hamdden ac mae'n parhau i ddatblygu ei fedrau rhifedd a llythrennedd. Mae'n enghraifft ardderchog i ddysgwyr eraill. Mae ei waith caled, ei ymroddiad a'i agwedd gadarnhaol wedi creu argraff ar bob un o'i athrawon. Ef oedd enillydd dysgwr Adeiladu Medrau y darparwr ar gyfer y flwyddyn.

**Astudiaeth achos 6**

Mae dysgwr hŷn sy'n defnyddio Grant Dysgu'r Cynulliad i ariannu ei astudiaethau wedi cyflwyno cais i astudio ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn y flwyddyn academaidd nesaf. Gadwodd ei ysgol uwchradd ar ôl cwblhau ei arholiadau TGAU gan nad oedd disgwyl i ddysgwyr ddatblygu gan fod yr ysgol mewn ardal gymdeithasol ddifreintiedig. Ymunodd â'r Fyddin. Ar ôl treulio sawl blwyddyn yn y Fyddin, penderfynodd gofrestru yn y coleg y llynedd i ennill y cymwysterau sydd eu hangen i astudio sŵoleg. Enillodd dair gradd A ar lefel UG y llynedd ac mae ei diwtoriaid wedi darogan y bydd yn ennill 3 gradd A* ar lefel A2 eleni.

## Geirfa

**Adeiladu Medrau** Dyma fenter y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei hariannu ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gadael yr ysgol ac yn ddi-waith. Cyfeirir y dysgwyr at ddarparwr hyfforddiant gan Gyrfa Cymru. Mae dysgwyr yn derbyn lwfans hyfforddiant o £50 yr wythnos.

**MALlC** Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Huw Collins | AEM |
| Christine Hooper | AEM |